

TAFLEN ADRODDIAD / CRYNODEB O BENDERFYNIAD

PWRPAS: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD

Amseriad: Brys

Teitl: Sefydlu'r Panel Sicrhau Ansawdd

Categori Penderfyniad / Maes Busnes a Effeithir: Gofyniad Statudol

Crynodeb Gweithredol:

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn gyfrifol am fonitro ac archwilio ymlyniad yr heddlu i bolisiau a phrosesau ynglŷn â chwynion ac apeliadau yn rheolaidd. Sefydlodd y Comisiynydd blaenorol Banel Preswylwyr yn fodd i gynnwys aelodau annibynnol o'r cyhoedd (gwirfoddolwyr) i gynorthwyo gydag archwilio perfformiad, drwy hap samplio ffeiliau cwynion Heddlu Dyfed-Powys.

Pan ddaeth y Comisiynydd presennol i'w swydd, adolygodd y Polisi Gwirfoddolwyr. Gynt, datganodd y polisi y byddai gwirfoddolwr yn ddelfrydol yn byw, gweithio neu astudio yn ardal Dyfed-Powys. Diwygiodd y Comisiynydd y polisi fel ei fod yn datgan bod rhaid i'r gwirfoddolwr fyw, gweithio neu astudio o fewn ardal Dyfed-Powys er mwyn bod yn gymwys ar gyfer bod yn wirfoddolwr. 'R oedd nifer fawr o aelodau'r Panel Preswylwyr yn byw tu allan i ardal yr Heddlu. Penderfynodd y Comisiynydd felly i adolygu'r Panel a'i rôl. Ail-sefydlwyd y panel o dan enw newydd, gyda swyddogaeth ehangach.

Erbyn hyn, mae'r Panel Sicrhau Ansawdd yn archwilio ansawdd y cysylltiad rhwng yr Heddlu a'r cyhoedd mewn modd tryloyw ac annibynnol, ar gyfer y cymunedau y mae ei aelodau yn perthyn iddynt, o fewn ardal Dyfed-Powys. Mae swyddogaeth y panel hwn wedi cael ei hymestyn i gynnwys sicrhau ansawdd (1) Proses trafod cwynion yr Adran Safonau Proffesiynol; (2) y modd y mae'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus yn trafod pryderon a chanmoliaeth; a (3) galwadau 999 a 101 a gymerir gan drinwyr galwadau Canolfan Gyfathrebu Heddlu Dyfed-Powys.

Argymhelliad:

Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo sefydlu'r Panel Sicrhau Ansawdd newydd, fel yr uchod.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf fuddiannau personol neu niweidiol yn y mater hwn a chymeraf y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Cymeradwyaf / ni chymeradwyaf y cais uchod / ~~Nodaf y wybodaeth yn yr adroddiad (dilêwch fel y bo'n briodol)~~

Llofnod:



Dyddiad:

27/02/2017